

CYNGOR SIR Y FFLINT

25 MAI 2021

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we trwy gyfrwng Webex ddydd Mawrth 25 Mai 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)

Cynghorwyr Mared Eastwood (Vice-Chair), Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger and Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr: Derek Butler, David Cox a Carol Ellis

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd; Dirprwy Swyddog Monitro; Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd; Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a'r Parchedig Daniel Stroud ar gyfer gweddïau.

1. DATGAN CYSYLLTIAD

O ran eitem rhif 13 ar y rhaglen, Cwestiynau, roedd cwestiwn wedi dod i law am Gronfeydd Pensiynau'r Awdurdod Lleol a buddsoddi mewn tanwydd ffosil. Byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar gyfer Aelodau a oedd yn aelodau o Gronfa Bensiynau Clwyd.

2. NEWIDIADAU I AELODAETH Y CYNGOR

Soniodd y Cadeirydd am yr etholiadau diweddar a gynhaliwyd ar 6 Mai 2021, gan longyfarch y Cynghorydd Carolyn Thomas a gafodd ei hethol fel Aelod o'r Senedd dros Ranbarth Gogledd Cymru, y Cynghorydd Andy Dunbobbin a gafodd ei ethol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorydd Andy Hughes a oedd yn llwyddiannus yn yr is-etholiad ar gyfer ward Gwernymynydd. Rhoddodd y Cynghorydd Ian Roberts ei longyfarchiadau hefyd.

Diolchodd y Cynghorydd Carolyn Thomas i gydweithwyr a oedd wedi'i chefnogi ar ei thaith llywodraeth leol dros y 13 mlynedd diwethaf. Diolchodd y

Cynghorydd Andy Dunbobbin i bawb am eu cefnogaeth a'u dymuniadau gorau. Diolchodd y Cynghorydd Andy Hughes i gydweithwyr am eu cefnogaeth hefyd.

3. ADOLYGIAD Y CADEIRYDD O'R FLWYDDYN 2019-21

Fel y Cadeirydd sy'n ymadael, cyflwynodd y Cynghorydd Marion Bateman ei hadolygiad o'r flwyddyn 2019/20 a chyfnod estynedig 2020/21, pan oedd hi a'i Chonsort, y Cynghorydd Haydn Bateman, wedi cael y fraint o gynrychioli Sir y Fflint.

Yn ôl yn 2019, ei nod oedd ymweld â chynifer â phosibl o fusnesau a diwydiannau sy'n seiliedig yn Sir y Fflint ac roedd yn falch o dderbyn gwahoddiadau gan amrywiaeth eang o gwmnïau. Bu Haydn a hithau yn agoriadau swyddogol Llys Raddington a Chanolfan Ddydd Hwb Cyfle ac roeddent yn bresennol yng ngwobrau Balchder Sir y Fflint. Roedd nifer o ysgolion wedi mwynhau dod i Siambr y Cyngor. Roeddent hefyd wedi bod yn falch o gynrychioli Cyngor Sir y Fflint mewn nifer o ddigwyddiadau cofio a dathlu'r Lluoedd Arfog.

Diolchodd y Cynghorydd Bateman i bawb am eu haelioni wrth gyfrannu at ei helusennau dewisol, sef Hosbis Tŷ'r Eos ac Ymchwil Cancr y Gogledd Orllewin, yn ogystal ag elusennau lleol.

Soniodd am effaith ar fywyd ers mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Rhoddodd deyrnged i waith diflino'r GIG, pob gweithiwr rheng flaen arall gan gynnwys timau Gwasanaethau Stryd Sir y Fflint, staff y cartrefi gofal a phawb a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r trydydd sector a oedd yn mynd tu hwnt i'r gofyn er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol i breswylwyr, ac athrawon Sir y Fflint am barhau i ddarparu addysg i'r plant. Diolchodd i'r gwasanaethau brys, gyrwyr danfon, cymorthyddion siopau, gweithwyr post a'r gwirfoddolwyr cymunedol a fu'n helpu i gefnogi preswylwyr a oedd yn ynysu. Mynegodd ei diolch i swyddogion y Cyngor a oedd wedi gorfod addasu i weithio gartref, gan gynnwys cefnogi Aelodau mewn cyfarfodydd dros y we.

I gloi, mynegodd ei diolch personol i Colin Everett, y Prif Weithredwr, a oedd wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y 14 mis diwethaf wrth lywio Sir y Fflint a Gogledd Cymru gyfan trwy drychineb digynsail y pandemig byd-eang. Dymunodd yn dda iddo ef a'i deulu ar gyfer y dyfodol wrth iddo adael ei swydd cyn hir.

Diolchodd i swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod yn y swydd ac i'w Chaplan, Daniel Stroud. Rhoddodd deyrnged i'r gefnogaeth yr oedd y Cynghorydd Joe Johnson wedi'i rhoi iddi yn ei rôl fel Is-Gadeirydd a dymunodd yn dda iddo ef a'i Gonsort ar gyfer y flwyddyn nesaf.

4. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2021/22, A'R CADEIRYDD I DDERBYN CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN SWYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Ted Palmer ac eiliodd y Cynghorydd Paul Shotton fod y Cynghorydd Joe Johnson yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor

ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/22. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. I gefnogi'r cynnig, rhoddwyd teyrngedau i'r Cynghorydd Marion Bateman am ei chyfraniadau yn ystod 2019/20 – 2020/21.

Diolchodd y Cynghorydd Joe Johnson i'r Aelodau am ei ethol fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, a dywedodd ei bod yn ffrainc. Rhoddodd longyfarchiadau i'r Cadeirydd a oedd yn ymadael a'i Chonsort, a dywedodd fod y Cynghorydd Marion Bateman wedi bod yn llysgennad ardderchog i'r Sir.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cynghorydd Joe Johnson yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/22.

Cafodd y Cynghorydd Joe Johnson ei arwisgo â Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd a oedd yn ymadael, a llofnododd Ddatganiad Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

(Cadeiriodd y Cynghorydd Joe Johnson y cyfarfod wedi hyn.)

Yna cyflwynodd y Cadeirydd ei Bathodyn Swydd Cadeirydd sy'n ymadael i'r Cynghorydd Marion Bateman, a'i Fathodyn Swydd i'w Chonsort, y Cynghorydd Haydn Bateman. Cafodd Consort y Cadeirydd, Mrs Johnson, ei harwisgo â'i Chadwyn Swydd.

5. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2021/22, A'R IS-GADEIRYDD I DDERBYN CADWYN Y SWYDD A LLOFNODI'R DATGANIAD DERBYN SWYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Hilary McGuill ac eiliodd y Cynghorydd Ian Dunbar fod y Cynghorydd Mared Eastwood yn cael ei hethol fel Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/22. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. I gefnogi'r cynnig, rhoddwyd teyrngedau i waith y Cynghorydd Eastwood yn y gymuned a'i chefnogaeth i achosion lleol.

Diolchodd y Cynghorydd Eastwood i'r Aelodau a rhoddodd longyfarchiadau i'r Cadeirydd, ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gydag ef dros y flwyddyn i ddod.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cynghorydd Mared Eastwood yn cael ei hethol fel Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/22.

Cafodd y Cynghorydd Eastwood ei harwisgo â Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd, a llofnododd Ddatganiad Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr. Cafodd Consort y Cynghorydd Eastwood, Mr Tim Eastwood, ei arwisgo â Chadwyn y Swydd.

Yna rhoddwyd rhoddion i'r Cynghorydd Haydn Bateman, Sue Johnson a Tim Eastwood.

6. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Hughes ac eiliodd y Cynghorydd Billy Mullin fod y Cynghorydd Ian Roberts yn cael ei benodi fel Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/22. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. I gefnogi'r cynnig, rhoddwyd teyrngedau i gyflawniadau'r Cynghorydd Roberts mewn llywodraeth leol a'i ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon i breswylwyr Sir y Fflint.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cynghorydd Ian Roberts yn cael ei ethol fel Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/22.

7. ARWEINYDD Y CYNGOR I BENODI'R CABINET

Cyngor a dywedodd ei bod yn fraint. Yn unol â'r Cyfansoddiad, nododd ei ddewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet.

PENDERFYNWYD:

Bod y dewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet, a'u portffolios a nodir isod, yn cael ei nodi.

<u>Aelod Cabinet</u>	<u>Portffolio</u>
Ian Roberts	Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg ac Ieuentid
Glyn Banks	Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd
Chris Bithell	Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Derek Butler	Aelod Cabinet Datblygu Economaidd
Dave Hughes	Aelod Cabinet Tai
Paul Johnson	Aelod Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael
Christine Jones	Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol
Billy Mullin	Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau

8. MATERION CYFANSODDIADOL GAN GYNNWYS PWYLLGORAU

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog (Llywodraethu) a ddeliodd â'r materion hynny sydd angen penderfynu arnynt yn ystod Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor Sir, yn unol â Rheol 1.1 (vii) - (xiv) Gweithdrefn y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn cynnig creu Pwyllgor Adfer newydd i oruchwylio'r gwaith hanfodol o helpu'r Cyngor i adfer ar ôl effaith pandemig Covid-19. Roedd yr adroddiad hefyd yn delio â phenodi Pwyllgorau a chadeiryddion eraill a materion eraill fel dyrannu seddi, dan gydbwysedd gwleidyddol.

Cafodd yr adroddiad ei rannu'n adrannau, ac roedd pob un yn delio ag un penderfyniad oedd angen ei wneud, a'r materion perthnasol i'w hystyried. Rhoddwyd ystyriaeth i bob adran a phleidleisiwyd arnynt.

(i) Penodi Pwyllgorau

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyfansoddiad yn caniatáu penodi'r canlynol: Pwyllgor Apeliadau; Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd; Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; Pwyllgor Cwynion; Pwyllgor Apeliadau Cwynion; Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu; Pwyllgor Cydlywodraethu (ar gyfer Pensiynau); Pwyllgor Trwyddedu; Pwyllgor Cynllunio; Pwyllgor Adfer; Pwyllgor Safonau; a'r pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Apeliadau;
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd;
Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd;
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
Pwyllgor Cwynion;
Pwyllgor Apeliadau Cwynion;
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu;
Pwyllgor Cydlywodraethu (ar gyfer Pensiynau);
Pwyllgor Trwyddedu;
Pwyllgor Cynllunio;
Pwyllgor Adfer;
Pwyllgor Safonau; a'r
Pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a restrir yn yr adroddiad.

(ii) Pennu maint Pwyllgorau

Eglurodd y Prif Swyddog fod rhaid penderfynu ar faint pob Pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol. Roedd y Cyngor wedi penderfynu o'r blaen y dylai'r prif Bwyllgorau fod yn ddigon mawr i bob grŵp gwleidyddol gael ei gynrychioli.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin.

PENDERFYNWYD:

Bod maint pob pwyllgor fel a nodir ym mharagraff 1.04 yr adroddiad.

(iii) Cylch Gorchwyl Pwyllgorau

Eglurodd y Prif Swyddog ei bod yn ofynnol i'r Cyfarfod Blynyddol benderfynu ar gylch gorchwyl y Pwyllgorau a benodwyd ganddo. Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor Adfer wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin.

PENDERFYNWYD:

Bod cylch gorchwyl pob Pwyllgor fel a nodir yn y Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo.

(iv) Cydbwysedd Gwleidyddol

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod yn rhaid i'r Cyngor benderfynu yn, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl, y Cyfarfod Blynyddol, ar ddyraniad seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'i diwygiwyd. Nid oedd y rheolau hynny'n berthnasol i'r Cabinet na'r Pwyllgor Safonau. Byddai'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r Pwyllgor Adfer newydd.

Er mwyn cyflawni cydbwysedd gwleidyddol, bu'n angenrheidiol gwahanu'r Pwyllgorau 'cyflogaeth', sef y Pwyllgor Cwynion, Apeliadau Cwynion ac Ymchwilio a Disgyblu. Fel arall, byddai'r grwpiau llai dan anfantais trwy orfod defnyddio rhan o'u dyraniad seddi ar bwyllgorau nad oeddent yn cwrdd yn aml, os o gwbl.

Roedd 131 o seddi ar gyfer Cynghorwyr ar draws holl Bwyllgorau'r Cyngor yn seiliedig ar y grŵp presennol o aelodau. Roedd hawl pob grŵp i seddi wedi'i nodi yn y tabl yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers am eglurder o ran y byddai'r Cynghorydd Andy Hughes wedi'i alinio â Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, a chadarnhawyd hyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Jones.

PENDERFYNWYD:

Bod y seddi'n cael eu dyrannu yn unol â chydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn atodiad 2 yr adroddiad a'r rheolau ar aelodaeth y Pwyllgorau fel a nodir ym mharagraffau 1.08 – 1.14 yr adroddiad, a bod y seddi ar y Pwyllgorau Cwynion, Apeliadau Cwynion ac Ymchwilio a Disgyblu yn cael eu dyrannu er mwyn rhoi gwasgariad gwleidyddol eang o ran aelodaeth.

(v) Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi gan wahanol gyrrff, rhai ohonynt a oedd yn destun cyfyngiadau.

Roedd tabl ym mharagraff 1.17 yr adroddiad yn amlinellu pa gorff oedd yn penodi pa Gadeirydd a pha gyfyngiadau (os o gwbl) oedd yn berthnasol.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin:

- Penodi'r Cynghorydd Ted Palmer yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd;
- Penodi'r Cynghorydd Neville Phillips yn Gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd;
- Penodi'r Cynghorydd Tony Sharps yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu;
- Penodi'r Cynghorydd David Wisinger yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio; a
- Phenodi'r Cynghorydd Richard Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Adfer.

Eglurodd y Prif Swyddog fod Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael eu dewis gan y grwpiau gwleidyddol yn seiliedig ar gryfder y gwahanol grwpiau a oedd â seddi ar y Cabinet. Roedd Cadeiryddion yn cael eu dyrannu i grwpiau a oedd â lle ar y Cabinet i ddechrau, a byddai unrhyw hawl yn cael ei dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Yna byddai'r Cadeiryddion eraill yn cael eu dyrannu i grwpiau nad oedd ganddynt sedd ar y Cabinet gan dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin:

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cymunedau, Tai ac Asedau
Addysg, Ieuencid a Diwylliant
Adnoddau Corfforaethol
Yr Amgylchedd a'r Economi
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Grŵp i Ddewis Cadeirydd
Llafur (Cynghorydd Ian Dunbar)
Llafur (Cynghorydd David Healey)
Ceidwadwyr
Y Gynghrair Annibynnol
Democratiaid Rhyddfrydol

O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod Cadeiryddion y Pwyllgorau canlynol yn cael eu penodi (gan nodi unrhyw gyfyngiadau ar gymhwysedd):
- Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd – y Cynghorydd Ted Palmer
 - Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd – y Cynghorydd Neville Phillips
 - Pwyllgor Trwyddedu – y Cynghorydd Tony Sharps
 - Pwyllgor Cynllunio – y Cynghorydd David Wisinger
 - Pwyllgor Adfer – Y Cynghorydd Richard Jones
- (b) Bod y Pwyllgor Cwynion, y Pwyllgor Apeliadau Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penodi eu Cadeiryddion eu hunain o blith eu haelodau; a
- (c) Bod y grwpiau canlynol yn cadeirio'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel yr amlinellwyd:

Cymunedau, Tai ac Asedau	Llafur (Cynghorydd Ian Dunbar)
Addysg, Ieuencid a Diwylliant	Llafur (Cynghorydd David Healey)
Adnoddau Corfforaethol	Ceidwadwyr
Yr Amgylchedd a'r Economi	Y Gynghrair Annibynnol
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	Democratiaid Rhyddfrydol

(vi) Cymeradwyo'r Cyfansoddiad

Eglurodd y Prif Swyddog fod y Cyfansoddiad yn nodi sut roedd y Cyngor yn gweithredu a'i fod yn cynnwys:

- Rheolau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli cyfarfodydd a busnes y Cyngor;
- Dirprwyaethau i'r Cabinet (gan gynnwys dewis beth fyddai'n swyddogaeth weithredol a beth na fyddai'n swyddogaeth weithredol);
- Dirprwyaethau i bwyllgorau a grwpiau ymgynghorol yn unol â'u cylch gorchwyl;
- Dirprwyaethau i swyddogion; a
- Chodau a phrotocolau i gefnogi safonau uchel o ran ymddygiad moesegol a llywodraethu

Roedd y Cyfansoddiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod pob tymor y Cyngor a byddai pob cod/protocol yn cael ei adolygu o leiaf unwaith fel rhan o adolygiad wedi'i drefnu. Roedd newidiadau'n cael eu gwneud pan fo angen hefyd os oedd adolygiad wedi'i drefnu eisoes wedi'i gynnal neu os nad oedd wedi'i drefnu am beth amser. Yn ystod y 12 mis nesaf, byddai'r Cyngor yn adolygu:

- Rheolau Gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd i hwyluso cyfarfodydd hybrid;
- Y Cod Ymddygiad yn unol ag adolygiad gan Lywodraeth Cymru;
- Y Cod Ymddygiad Cynllunio fel a gytunwyd yn y cyfarfod ym mis Ebrill; a
- Phrotocol ar Gyfraniad Aelodau mewn Wardiau Eraill.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin.

PENDERFYNWYD:

Bod y rheolau, gweithdrefnau, dirprwyaethau a chodau/protocolau yn y Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo, gan gynnwys y newidiadau dros dro i reolau gweithdrefnau i ddarparu ar gyfer cyfarfodydd dros y we.

(vii) Enwebu i Gyrff Mewnol

Eglurodd y Prif Swyddog fod y Cynllun Dirprwyo presennol yn darparu ar gyfer Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogion haen gyntaf ac ail haen, yn cynnwys saith Aelod. Nid oedd hwn yn bwyllgor sefydlog a byddai'n cael ei gynnull pan fo angen drwy geisio enwebiadau gan Arweinwyr Grŵp. Yn y

gorffennol, bu'n ddefnyddiol i Aelodau'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys gan gynnwys yr Aelod Cabinet perthnasol. Ym mis Ebrill, roedd y Cyngor wedi cytuno i gael Pwyllgor Penodiadau ychydig yn fwy ar gyfer recriwtio Prif Weithredwr newydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Jones.

PENDERFYNWYD:

Bod lluniad y Pwyllgor Penodiadau'n cael ei gymeradwyo.

(viii) Y Pwyllgor Safonau

Eglurodd y Prif Swyddog gyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau a gofynnwyd i Aelodau ei nodi, ynghyd â phenodi Aelodau i Gyrrff Allanol ar gyfer tymor cyfan y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts, gan fod y Cynghorydd Paul Johnson yn Aelod o'r Cabinet bellach, byddai'r Cynghorydd Gladys Healey yn cymryd ei le ar y Pwyllgor Safonau.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Jones.

PENDERFYNWYD:

Bod cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cael ei nodi, gan gynnwys y newid o ran aelodaeth, sef y bydd y Cynghorydd Gladys Healey yn cymryd lle'r Cynghorydd Paul Johnson.

(ix) Penodiadau i Gyrrff Allanol

Eglurodd y Prif Swyddog y bu i'r Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2017, benodi Aelodau i gyrrff allanol ar gyfer tymor llawn y Cyngor. Roedd hyn hefyd yn rhoi pŵer i'r Prif Weithredwr, trwy ymgynghori ag Arweinwyr Grwpiau, wneud newidiadau i'r enwebiadau hynny yn ôl y gofyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts gymeradwyo'r argymhelliad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Jones.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor yn nodi'r enwebiadau i Gyrrff Allanol a benodwyd ar gyfer tymor cyfan y Cyngor a phŵer y Prif Weithredwr i amrywio'r enwebiadau hynny (trwy ymgynghori ag Arweinwyr Grwpiau).

9. AMSERLEN O GYFARFODYDD 2021/22

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2020/21 yn dilyn ymgynghoriad.

Bob blwyddyn, roedd yr Amserlen o Gyfarfodydd yn cael ei dylunio yn seiliedig ar gylchoedd cyfarfod rheolaidd, diwrnodau cyfarfod rheolaidd lle bo'n bosibl, a thrwy ymgynghori'n eang i sicrhau nad oedd ymrwymadau adrodd a/neu gyfarfodydd yn cyd-daro.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r amserlen ddrafft ar gyfer cyfarfodydd 2021/20.

Cafwyd toriad byr cyn ystyried yr eitemau arferol.

10. CYNLLUN Y CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem ac eglurodd fod Cynllun y Cyngor yn cael ei gyhoeddi fel dwy ddogfen. Roedd Rhan 1 yn nodi'r bwriad. Roedd Rhan 2 yn nodi'r risgiau, mesuryddion perfformiad, targedau a cherrig milltir a ddefnyddir i fesur a gwerthuso cyflawniad. Roedd Cynllun y Cyngor wedi'i adolygu a'i adnewyddu o ran strwythur a chynnwys, ac roedd yn dal i roi ystyriaeth i adferiad parhaus yn ogystal ag amcanion strategol mwy hirdymor.

Roedd y fframwaith ar gyfer Cynllun y Cyngor y flwyddyn nesaf wedi'i adeiladu o amgylch chwe thema:

- Yr Economi;
- Addysg a Sgiliau;
- Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd;
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch;
- Lles Personol a Chymunedol; a
- Thlodi.

Roedd pob un o'r chwe thema wedi'u mapio yn erbyn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer adrodd ac atebolrwydd. Cyfrifoldeb y Cabinet oedd darparu'r Cynllun.

Roedd Cynllun y Cyngor Rhan 1 wedi'i rannu gyda Phwyllgorau Trosolwg a Craffu i'w adolygu ac er mwyn cael sylwadau. Ni fu unrhyw newid sylweddol i Ran 1 yn dilyn yr ymgynghoriad oherwydd bod y Pwyllgorau'n gefnogol.

Wrth gynnig cymeradwyo'r argymhelliad, amlygodd y Cynghorydd Ian Roberts estyniad cartref gofal Marleyfield House ac Ysgol Glanrafon. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Billy Mullin.

PENDERFYNWYD:

Mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2021/22, ar argymhelliad y Cabinet.

11. ADRODDIAD BUDD Y CYHOEDD A GYHOEDDIR O DAN ADRAN 16 DEDDF OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) 2005

Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Monitro, cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr eitem a'r cefndir i Adroddiad Budd y Cyhoedd a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd wedi cynnal cwyn

gan gymydog eiddo a oedd wedi cael caniatâd cynllunio i'w anecs gan y Cyngor. Roedd canfyddiadau'r Adroddiad Budd y Cyhoedd yn nodi bod y ffordd yr oedd y ceisiadau wedi'u trin gyfystyr â chamweinyddu, gan arwain at anghyfiawnder i'r achwynydd hwnnw, ac roedd yn gwneud argymhellion ar gyfer unioni'r camweinyddu. Dywedodd y Prif Swyddog fod adroddiadau o'r fath yn bethau prin i'r Cyngor ac mai cyfrifoldeb y Cyngor oedd penderfynu a ddylid derbyn neu herio canfyddiadau ac argymhellion gan yr Ombwdsmon.

Er bod swyddogion yn parchu barn yr Ombwdsmon, roeddent wedi rhoi ystyriaeth ofalus a gwrthrychol i'r mater ac roeddent yn anghytuno â rhai o'r canfyddiadau hynny. Roeddent o'r farn bod yr anecs yn sylweddol yn unol â'r polisi, ac er bod mân wyro o'r polisi, nid oedd yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio. Felly, roeddent o'r farn y byddai'n debygol iawn y byddai'r ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus â'i apêl, pe bai'r Cyngor wedi gwrthod caniatâd. Ymhellach, roedd hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu ar gyfer adeiladu adeilad tebyg o ran golwg, a mwy, beth bynnag. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol annibynnol, roedd swyddogion o'r farn, er byddai gan y Cyngor ragolygon rhesymol o lwyddo pe bai'n cyflwyno her gyfreithiol i'r canfyddiadau, byddai proses o'r fath yn arwain at gostau ac adnoddau sylweddol i'r Cyngor a'r Ombwdsmon, gan achosi difrod i'r berthynas weithio honno o bosibl a rhagor o oedi o ran dod i benderfyniad i'r achwynydd. Ar y sail honno, argymhellwyd bod y Cyngor yn derbyn canfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mewn cyferbyniad, roedd gan y Cyngor ddisgresiwn o ran p'un a fyddai'n derbyn argymhellion yr Ombwdsmon o ran unioni, a byddai angen sail dda i wyro o'r argymhellion hynny. Fodd bynnag, o ystyried cred y swyddogion o ran polisi a hawliau datblygu a ganiateir, roeddent yn teimlo'n gryf bod sail dda dros argymell camau unioni gwahanol i'r rhai a gyflwynwyd gan yr Ombwdsmon. Pe bai'r canfyddiadau'n cael eu derbyn, byddai'n rhesymol gweithredu'r ddau argymhelliad cyntaf i ymddiheuro i'r achwynydd am faint o amser a gymerwyd i'w ddatrys - roedd y Cyngor ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am hyn - ac adolygu a gydymffurfiwyd â'r amodau oedd ynghlwm wrth y caniatâd ôl-weithredol. Argymhellodd Swyddogion fod trydydd argymhelliad yr Ombwdsmon (bod swm yn cael ei dalu i'r achwynydd sydd gyfwerth â'r gwahaniaeth yng ngwerth ei heiddo cyn ac ar ôl y datblygiad, a fyddai'n dod i £20,000) yn cael ei wrthod, ar y sail a nodir yn 3.10 yr adroddiad. Argymhellodd Swyddogion fod y Cyngor yn talu swm o £5,000 i adlewyrchu'r amser, y drafferth a'r gofid a achoswyd i'r achwynydd.

Wrth gynnig cymeradwyo argymhellion y swyddog, cytunodd y Cynghorydd Chris Bithell mai hwn oedd y dull cywir, yn seiliedig ar y rhesymau a nodwyd. Roedd y Cynghorydd David Wisinger yn siarad o blaid hefyd, ac eiliodd y cynnig.

Diolchodd y Cynghorydd Patrick Heesom i swyddogion am yr adroddiad a dywedodd fod argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn briodol a dylid eu cydnabod. Oherwydd mai hwn oedd yr ail Adroddiad Budd y Cyhoedd a gyhoeddwyd i'r Cyngor gan yr Ombwdsmon, awgrymodd fod y Grŵp Strategaeth Gynllunio yn archwilio hyn ymhellach.

Dyweddod y Prif Weithredwr fod ymgynghori wedi bod gyda'r Grŵp Strategaeth Gynllunio ac Arweinwyr Grwpiau o ran yr adroddiad a byddai unrhyw wersi a ddysgwyd o'r mater yn cael eu dilyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at eiriad ym mharagraff 3.08 yr adroddiad a dywedodd os oedd y Cyngor yn derbyn bod camweinyddu wedi digwydd, dylai dalu £20,000 i'r achwynydd (sef y swm yr oedd y Prisiwr Dosbarth yn credu oedd y gwahaniaeth o ran gwerth ei heiddo), yn unol ag argymhelliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Siaradodd y Cynghorydd Clive Carver am bwysigrwydd gwrando ar argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chyfeiriodd at adroddiad tebyg a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon yn 2019. Oherwydd nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, ac felly nad oedd wedi cael yr hyfforddiant perthnasol, cododd y Cynghorydd Carver bryderon nad oedd ganddo wybodaeth ddigonol i gwestiynu cyngor swyddogion am geisiadau cynllunio yn ei ward. Dywedodd y Cynghorydd Carver y byddai'n pleidleisio yn erbyn argymhellion swyddogion a gofynnodd fod hyn yn cael ei gofnodi.

Cwestiynodd y Cynghorydd Mike Peers y cynnig a awgrymwyd, sef £5,000 os oedd y Cyngor yn derbyn rhywfaint o atebolrwydd, a gofynnodd sut oedd y ffigur hwn wedi codi. Cododd gwestiynau o ran cydymffurfio ag amodau cynllunio, rhannu cyngor cyfreithiol a gofnodwyd a gofynnodd a oedd y sail ar gyfer gwahanol gamau unioni wedi'i godi gyda'r Ombwdsmon cyn yr adroddiad i'r Cyngor.

Gan ymateb i'r pwyntiau a godwyd, eglurodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog nad oedd achos blaenorol y soniwyd amdano wedi gosod cynsail oherwydd bod y rhesymau dros herio yn wahanol. Yn yr achos hwn, y prif resymau dros beidio â herio'r canfyddiadau trwy Adolygiad Barnwrol oedd osgoi difrod i enw da'r Cyngor a'i berthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ynghyd â'r costau oedd ynghlwm â gwneud hynny. Roedd Swyddogion wedi egluro'r sail dros wyro o argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cyn i'r Adroddiad Budd y Cyhoedd gael ei gyhoeddi, ac roedd y taliad a awgrymwyd i'r achwynydd i adlewyrchu gofid ac oedi gyda'r achos - roedd hyn yn gyfrifoldeb i'r Ombwdsmon hefyd - yn berthynol i daliadau iawndal eraill oedd wedi'u cofnodi am resymau tebyg. Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod y Cyngor wedi cysylltu'n llawn ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru trwy gydol y broses.

Gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Aaron Shotton am y camau nesaf, nododd y Prif Swyddog y dewisiadau a oedd ar gael i'r Ombwdsmon wrth roi ystyriaeth i benderfyniad y Cyngor, lle na fyddai unrhyw atebolrwydd ar Aelodau'r Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Jones ddiwygiad, sef bod y Cyngor yn derbyn y canfyddiadau a phob argymhelliad a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn llawn (paragraffau 50-53 adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Heesom.

Ar gyngor y Prif Swyddog, cafwyd pleidlais i egluro a oedd Aelodau'n cefnogi argymhellion swyddogion neu argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn llawn (diwygiad gan y Cynghorydd Jones). O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd y diwygiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod canfyddiadau a nodir yn yr Adroddiad Budd y Cyhoedd yn cael eu derbyn am resymau a nodir ym mharagraff 3.03 i 3.06 yr adroddiad; a
- (b) Bod argymhellion a nodir ym mharagraff 50, 51, 52 a 53 yr Adroddiad Budd y Cyhoedd yn cael eu derbyn, sef bod y Cyngor yn:
 - I. Cyhoeddi ymddiheuriad i'r achwynydd;
 - II. Adolygu a gydymffurfiwyd â'r amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd ôl-weithredol. Os doir i'r casgliad na chydymffurfiwyd â nhw, dylai'r Cyngor ystyried pa gamau gweithredu allai fod yn fanteisiol i sicrhau cydymffurfiaeth o'r fath;
 - III. Cyfarwyddo'r Prisiwr Dosbarth i asesu effaith y datblygiad ar eiddo Ms N o fewn 3 mis ac o fewn mis o gael adroddiad y Prisiwr Dosbarth, talu swm iddi sydd gyfwerth â gwahaniaeth gwerth ei heiddo cyn ac ar ôl y datblygiad; a
 - IV. Chadarnhau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pa gamau mae wedi'u cymryd i ymateb i'r Adroddiad Budd y Cyhoedd.

12. DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Tudor Jones ddeiseb ar ran preswylwyr yng Nghaerwys i edrych ar wella cadwraeth lleiniau ymyl ffordd ac i ystyried y dull a gymerir gan Gyngor Sir Ddinbych.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod polisi presennol y Cyngor wedi'i ddosbarthu ymhlith Aelodau ac awgrymodd fod y mater yn cael ei atgyfeirio i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol ar gyfer ystyriaeth bellach. Roedd y Cynghorydd Jones yn cefnogi'r awgrym hwn.

13. CWESTIYNAU

Roedd cwestiwn wedi dod i law gan y Cynghorydd Tudor Jones ar Gronfeydd Pensiwn yr Awdurdod Lleol a buddsoddiad mewn tanwyddau ffosil. Roedd y cwestiwn a'r ymateb wedi'u dosbarthu i Aelodau a'u cyhoeddi ar y wefan.

Roedd y Cynghorydd Jones yn croesawu'r ymateb manwl a diolchodd i'r Cynghorydd Ted Palmer - Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd - am ei wahoddiad i fynychu sesiwn friffio ar y mater. Nid oedd ganddo gwestiwn atodol ond gofynnodd fod y cwestiwn a'r ymateb ar gael i bobl eraill oedd â diddordeb.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r cwestiwn a'r ymateb yn cael eu rhannu gydag Aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd.

PENDERFYNWYD:

Bod y cwestiwn yn cael ei dderbyn a'r ymateb yn cael ei nodi.

14. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

15. RHYBUDD O GYNNIG

Ni dderbyniwyd unrhyw un.

16. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol a dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.10 pm)

.....
Cadeirydd